OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 2689

# Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "asiantaeth cefnogi mabwysiadu gofrestredig" ("*registered adoption support agency*") yw asiantaeth cefnogi mabwysiadu y cofrestrir person mewn perthynas â hi o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**);

ystyr "yr awdurdod cofrestru" ("*the registration authority*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr CAFCASS ("*CAFCASS*") yw y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr "gwybodaeth adran 56" ("*section 56 information*") yw gwybodaeth a ragnodir gan reoliad 3;

ystyr "mabwysiadwyr" ("*adopters*") yn achos mabwysiadu gan un person yw'r person hwnnw;

ystyr "perthynas geni" ("*birth relative*") mewn perthynas â pherson mabwysiedig yw person a fyddai, oni bai am y mabwysiadu, yn perthyn iddo drwy waed (gan gynnwys hanner gwaed) neu drwy briodas;

ystyr "rhiant geni" ("*birth parent*") mewn perthynas â pherson mabwysiedig yw person a fyddai, oni bai am y mabwysiadu, yn rhiant iddo;

ystyr "y Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu" ("*the Adoption Agencies Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**).

mae i "swyddog achosion teuluol ar gyfer Cymru" yr ystyr a roddir i "*Welsh family proceedings officer*" yn adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004(**4**).

(**1**) 2000 p.14.
(**2**) Gweler adran 11 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 p.43.
(**3**) O.S.2005/1313.
(**4**) 2004 p.31.